# Cynllun Gwaith 2024/25

**Ebrill 2024**



Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

CMA Ofcom ico. FCA

# Cynnwys


**3** Rhagair y Cadeirydd
**5** Cyflwyniad
**6** Gweledigaeth tair blynedd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol
**7** Rhesymeg dros y weledigaeth tair blynedd
**8** Prosiectau Cynllun Gwaith 2024/25
**15** Dull o ymgysylltu'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol
**16** Effaith y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, a sut i ddod i gysylltiad

# Rhagair y Cadeirydd



Rydyn ni ar drothwy chwyldro deallusrwydd artiffisial a thechnolegol. Fel rheoleiddwyr, mae gennym ddiddordeb cyffredin mewn galluogi'r chwyldro hwnnw: i ddiogelu pobl rhag niwed a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o risgiau, law yn llaw â galluogi diwydiannau digidol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddatgloi twf economaidd. Rydyn ni'n awyddus

i ddatgloi potensial deallusrwydd artiffisial a thechnoleg ddigidol, gan wneud yn siŵr nad yw'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn cael eu gadael ar ôl. Byddwn yn cadw golwg ar y dyfodol i sicrhau ein bod yn barod iawn am dechnolegau datblygol. A byddwn yn gwneud hyn mewn ffordd sy'n gydgysylltiedig ac yn effeithlon.

Mae ein diddordebau cyffredin fel rheoleiddwyr yn parhau i dyfu, a byddant yn datblygu. Felly, am y tro cyntaf, rydyn ni'n lansio gweledigaeth tair blynedd ar gyfer y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol. Mae cydlynu rheoleiddiol yn allweddol i ddatgloi dulliau arloesol o fynd i'r afael â thechnoleg, gan fod cynifer o dechnolegau newydd yn cwmpasu cylchoedd gwaith rheoleiddio. Er enghraifft, mae effaith deallusrwydd artiffisial yn tyfu'n gyflym ar draws yr economi. I ni fel rheoleiddwyr, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gydweithio i sicrhau cysondeb rhwng ein dulliau gweithredu tra ein bod yn rheoleiddio o fewn ein meysydd awdurdodaeth.

Canolbwynt ein gwaith ar y cyd dros y flwyddyn i ddod fydd Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol y Fforwm. Bydd yr Hyb yn wasanaeth cyngor anffurfiol rhad ac am ddim i arloeswyr technoleg, a fydd yn eu galluogi i gael cyngor anffurfiol cyfun gan y pedwar corff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm ar yr un pryd. Ein nod yw i'r Hyb alluogi datblygwyr cynnyrch i ddod â'u cynnyrch i'r farchnad yn ddiogel ac yn gyflym.

Mae tirwedd rheoleiddio digidol y DU wedi datblygu'n dda erbyn hyn, gyda deddfwriaeth newydd wedi cael ei mabwysiadu neu'n mynd rhagddi o ran diogelwch ar-lein, cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol a diogelu data, a risgiau cadernid gweithredol sy'n gysylltiedig â thrydydd partïon critigol mewn gwasanaethau ariannol. Hefyd, mae dull gweithredu clir gan y Llywodraeth yng nghyswllt rheoleiddio deallusrwydd artiffisial. Byddwn yn cydweithio'n agos mewn meysydd sy'n gorgyffwrdd i wneud yn siŵr bod rheoleiddio digidol yn ei gyfanrwydd yn effeithiol ac yn effeithlon i fusnesau a'u cwsmeriaid. Yn y cyfamser, ar gyfer y cwmnïau hynny sy'n ddigon mawr i fod o ddiddordeb allweddol i'n holl gyrff rheoleiddio sy'n aelodau, byddwn yn dod at ein gilydd i oruchwylio mewn modd cyson a chydlynol.

Nid yw rheoleiddio digidol yn y DU yn digwydd mewn gwagle. Rydyn ni'n ymwybodol bod llawer o fusnesau'n gweithredu mewn darlun rheoleiddio rhyngwladol cymhleth. Rydyn ni'n bwriadu adeiladu ar y rhwydwaith rhyngwladol a sefydlwyd gennym y llynedd, gan arloesi ein dull o gydlynu rheoleiddio ar y llwyfan byd-eang a rhannu arferion gorau gyda chymheiriaid tramor.

Yn y DU, byddwn yn gweithio ymhellach gyda rheoleiddwyr eraill mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin, yn ogystal â pharhau i ymgysylltu â'r diwydiant, y llywodraeth, y Senedd a chymdeithas sifil. Dros y flwyddyn nesaf, rydyn ni'n bwriadu gwneud rhagor o waith ar ein prosiectau presennol, a gwneud rhywfaint o waith newydd o ganlyniad i fewnbwn a gafwyd mewn ymateb i'n galwad yr hydref diwethaf. Fel Cadeirydd y Fforwm, mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Gwaith 2024/25 y Fforwm sy'n cynnwys rhagor o fanylion am ein cynlluniau i gyd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Nikhil Rathi,
Prif Swyddog Gweithredol yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Chadeirydd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

# Cyflwyniad

Mae'r Fforwm yn dod â phedwar corff rheoleiddio'r DU at ei gilydd, sef yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom), Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i sicrhau dull gweithredu cyson yng nghyswllt rheoleiddio digidol er budd pobl a busnesau ar-lein. Mae'n fforwm cydweithredu gwirfoddol sy'n hwyluso ymgysylltu rhwng cyrff rheoleiddio sy'n aelodau mewn meysydd polisi digidol sy'n gorgyffwrdd ac sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall. Nodau allweddol y Fforwm yw sicrhau bod rheoleiddio digidol yn cael ei gydlynu rhwng ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau er mwyn i ni allu gwasanaethu dinasyddion a defnyddwyr yn well, lleihau beichiau rheoleiddio ar y diwydiant pan fo hynny'n briodol, a gwella effaith fyd-eang y DU.

Mae pwysigrwydd gwaith y Fforwm yn parhau i dyfu. Mae trefn diogelwch ar-lein Ofcom bellach ar waith ac mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi cael pwerau ychwanegol i oruchwylio trydydd partïon critigol. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd y dirwedd rheoleiddio digidol yn parhau i ddatblygu dros y flwyddyn i ddod, a disgwylir i'r Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr a'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol gael Cydsyniad Brenhinol yn 2024. At hynny, mae'r Llywodraeth wedi nodi ei "Dull gweithredu o blaid arloesi yng nghyswllt rheoleiddio deallusrwydd artiffisial" sy'n rhoi cyrff rheoleiddio a chydlynu rhyngddynt wrth ei galon. Yn y cyd-destun hwn, bydd cydweithrediad rhwng cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm ar eu cyfrifoldebau digidol nawr ac yn y dyfodol yn dal yn bwysig eleni a thu hwnt. Mae'r Fforwm yn hyrwyddo ffyrdd newydd o ddod at ei gilydd i gefnogi arloesedd. Ym mis Medi 2023, sicrhaodd y Fforwm bron i £2 filiwn o gyllid gan y llywodraeth, dros gyfnod o ddwy flynedd, i ddatblygu Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol y Fforwm (yr Hyb). Bydd yr Hyb yn cael ei lansio'n fuan ac yn cynnal cynllun peilot dros 12 mis. Prif ddiben yr Hyb fydd mynd i'r afael â chwestiynau gan arloeswyr sy'n ymestyn dros gylchoedd gwaith sawl rheoleiddiwr. Bydd yr Hyb yn chwarae rhan allweddol yng ngwaith y Fforwm yn ystod 2024/25 ac yn nodi newid sylweddol yn y ffordd y mae'r Fforwm yn cydgysylltu ac yn rhyngweithio â chwmnïau. Drwy ddod â gwybodaeth rheoleiddwyr at ei gilydd i ddarparu cyngor anffurfiol, ei nod yw darparu cymorth traws-reoleiddio o'r radd flaenaf er mwyn helpu arloeswyr i ddod â chynnyrch digidol a deallusrwydd artiffisial newydd yn ddiogel i'r farchnad. Yn ogystal â'r fenter newydd hon, yn ystod 2024/25 bydd y Fforwm yn adeiladu ar ei lwyddiannau o'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys parhau i sganio'r gorwel am dechnolegau datblygol, gyda gwaith blaenorol y Fforwm ar gwantwm wedi dylanwadu ar argymhellion ar gyfer ei reoleiddio. Bydd cydweithio i hyrwyddo deallusrwydd artiffisial cyfrifol yn parhau i fod yn ganolog i raglen waith y Fforwm. Bydd y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm yn parhau â'u gwaith dylanwadol mewn meysydd eraill, gan gynnwys mynd i'r afael ag arferion dylunio twyllodrus a sbarduno newid i hysbysebu ar-lein drwy barhau i gydweithio ar gamau gorfodi, a chydweithio ar y rhyngweithio rhwng hysbysebion twyllodrus a'r drefn diogelwch ar-lein. Bydd y Fforwm yn parhau â'i waith i feithrin galluoedd digidol a chydweithio ar ddatblygu a mabwysiadu technoleg oruchwylio yn gyfrifol rhwng ei gyrff rheoleiddio sy'n aelodau.Bydd y papur hwn yn nodi ein gweledigaeth tair blynedd yn y lle cyntaf, a ddilynir gan brosiectau ein Cynllun Gwaith 2024/25. Ochr yn ochr â hynny rydyn ni'n cyhoeddi crynodeb o'n Cais am Fewnbwn, a'r ymateb iddo.

# Gweledigaeth tair blynedd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

### Diogelu a grymuso pobl ar-lein

-

Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, annog busnesau i gydymffurfio, a chymryd camau i atal niwed

### Datgloi arloesedd digidol a thwf economaidd

-

Ysgogi cynhyrchiant drwy alluogi technoleg i hybu twf

### Cefnogi effeithiolrwydd rheoleiddwyr

-

Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein rheolau'n cael eu mabwysiadu a'u defnyddio'n llwyddiannus

### Arwain trafodaethau yn y wlad hon ac yn rhyngwladol

-

Sbarduno sgyrsiau ynghylch galluogwyr priodol a pharamedrau'r diwydiannau digidol

### Rhagweld datblygiadau yn y dyfodol

-

Cryfhau ein dealltwriaeth o gyfleoedd a heriau posibl technolegau datblygol

# Rhesymeg dros y weledigaeth tair blynedd


Wrth i'r Fforwm aeddfedu ac wrth i'r cydweithio rhwng ei gyrff rheoleiddio sy'n aelodau ddyfnhau, fe ddaeth yn amlwg y bydd cydweithredu yn elfen hirdymor hanfodol o reoleiddio digidol yn y DU. Yn sgil hynny, er y bydd hyblygrwydd ac ystwythder yn parhau i fod yn elfennau hanfodol o'n model gweithio, rydyn ni'n mabwysiadu gweledigaeth tair blynedd ar gyfer gwaith y Fforwm. Bydd y weledigaeth yn llywio nodau tymor hwy pecyn gwaith eleni a'r rhai y byddwn yn eu datblygu ac yn eu cyflawni ar gyfer blynyddoedd 2025/26 a 2026/27.

Mae'r weledigaeth yn cydnabod blaenoriaethau cyffredin ein holl gyrff rheoleiddio sy'n aelodau i ddiogelu a grymuso pobl yn eu defnydd o wasanaethau digidol law yn llaw â datgloi twf economaidd ledled economi ddigidol y DU. Mae'n dangos sut y byddwn yn gwneud hynny, gan gynnwys cefnogi effeithiolrwydd ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau, gan arwain trafodaethau yn y wlad hon ac yn rhyngwladol ar reoleiddio digidol, a pharatoi ar y cyd i fodloni newidiadau technolegol yn y dyfodol.

Wrth fabwysiadu gweledigaeth tair blynedd, rydyn ni'n cydnabod bod gan lawer o'r gwaith a rennir amserlen dros sawl blwyddyn. Bydd diwygiadau deddfwriaethol gan gynnwys y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr, y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a'r Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol yn dylanwadu ar lawer o'n gwaith wrth symud ymlaen. Rydyn ni'n rhagweld y byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd ar reoleiddio deallusrwydd artiffisial dros amser wrth i'r dechnoleg a'r dirwedd polisi barhau i esblygu. Mae gorwel tair blynedd hefyd yn ein galluogi i gydnabod materion ar gyfer cydweithio posibl yn y dyfodol. Er enghraifft, mewn ymateb i'n cais diweddar am fewnbwn, soniodd nifer o randdeiliaid am yr angen am fwy o eglurder ynghylch Data Clyfar.

Yn ogystal â chyflwyno gweledigaeth tair blynedd, byddwn yn parhau i gynllunio ein gwaith a chyhoeddi Cynllun Gwaith yn flynyddol. Byddwn yn cadw hyblygrwydd i ailadrodd ein gwaith ar y cyd yn ystod pob blwyddyn, fel y llynedd pryd gwnaethon ni gydweithio y tu hwnt i'n Cynllun Gwaith i ddatblygu Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol y Fforwm (gweler tudalen 9) a drwy roi mwy o bwyslais ar reoleiddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Edrychwn ymlaen at groesawu heriau a chyfleoedd newydd yn ystod y blynyddoedd i ddod.

# Prosiectau Cynllun Gwaith 2024/25



## Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol y Fforwm

### Pwrpas

Darparu eglurder a sicrwydd rheoleiddiol i arloeswyr deallusrwydd artiffisial a digidol drwy fynd i'r afael â'u cwestiynau sy'n ymestyn dros nifer o gylchoedd gwaith rheoleiddio. Bydd y fenter arloesol hon yn ei gwneud yn haws i gynnyrch digidol a deallusrwydd artiffisial newydd gael eu darparu'n ddiogel i'r farchnad, a bydd hynny'n datgloi arloesedd ac yn cefnogi twf economaidd.

### Gweithgareddau arfaethedig

Yn ystod cyfnod peilot 12 mis yr Hyb, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Darparu cyngor anffurfiol i arloeswyr sy'n chwilio am ymatebion i'w cwestiynau deallusrwydd artiffisial a/neu ddigidol cymhleth sy'n rhychwantu o leiaf ddau gylch gwaith y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau.
- Cyhoeddi canlyniadau'r ymholiadau fel astudiaethau achos ar ein gwefan i gefnogi mwy o arloeswyr.
- Gofyn am adborth gan ddefnyddwyr yr Hyb a gwerthuso perfformiad y peilot a gwella'r gwasanaethau a gynigir.

## Deallusrwydd Artiffisial

### Pwrpas

Hyrwyddo deallusrwydd artiffisial cyfrifol drwy gydweithio'n unol â fframwaith deallusrwydd artiffisial y llywodraeth ac ymgysylltu ynghylch amrywiaeth o weithgareddau sy'n cefnogi datblygu'r farchnad archwilio deallusrwydd artiffisial yn ddoeth.

Bydd y cydweithio hwn yn gwella cydlyniad rheoleiddiol ac yn helpu busnesau i gydymffurfio â rheoliadau deallusrwydd artiffisial, gan alluogi twf economaidd. Bydd hyn yn ei dro yn gwneud rhyngweithio dinasyddion â deallusrwydd artiffisial yn rhywbeth cadarnhaol.

### Gweithgareddau arfaethedig

- Cynnal ymchwil ar y cyd i ddefnydd, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth defnyddwyr o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Yn ychwanegol at hyn, cynnal ymchwil i ddeall yn well sut mae sefydliadau'n mabwysiadu'r dechnoleg hon ar draws sectorau.

## Deallusrwydd Artiffisial (parhad)

- Rhannu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o niwed algorithmig yn rheolaidd.
- Cynnal gweithdai ar y cyd i archwilio sut mae Egwyddorion Deallusrwydd Artiffisial Llywodraeth y DU yn rhyngweithio o fewn gwahanol feysydd a chylchoedd gwaith rheoleiddio, gan ganolbwyntio eleni ar dryloywder ac atebolrwydd deallusrwydd artiffisial.
- Rhannu ein dulliau o gynnal archwiliadau rheoleiddio o systemau deallusrwydd artiffisial, gan gynnwys yr heriau a'r hyn a ddysgwyd.
- Parhau â'n hymchwil i'r farchnad archwilio trydydd partïon er mwyn helpu i roi gwybod i'r diwydiant sut gall wneud y defnydd gorau o archwilwyr trydydd parti.
- Gweithio gyda swyddogaeth deallusrwydd artiffisial ganolog newydd y llywodraeth ac ystyried prosiectau meithrin gallu rheoleiddwyr ar y cyd arfaethedig.
- Cynnal digwyddiad deallusrwydd artiffisial i gysylltu rheoleiddwyr ag arbenigwyr, y diwydiant.

## Diogelwch Ar-lein a Diogelu Data (Ofcom/Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)

### Pwrpas

Parhau i gyflawni ein hymrwymiad i sicrhau cydlyniad rhwng diogelu data a diogelwch ar-lein a gweithio gyda'n gilydd i hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r ddwy gyfundrefn.

### Gweithgareddau arfaethedig

- Cydweithio ar godau ymarfer a chanllawiau Ofcom o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein i roi eglurder i sefydliadau ynghylch sut mae cydymffurfio â chyfraith diogelwch ar-lein a diogelu data.
- Cydweithredu ar ganllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y dyfodol o ran technolegau diogelwch proffilio defnyddwyr ac adnabod ymddygiad er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i ofynion diogelwch ar-lein.
- Cydweithio ar oruchwylio a gorfodi, a fydd yn cynnwys datblygu ein harferion gweithio presennol lle bo hynny'n briodol o fewn ein fframweithiau cyfreithiol, ac egluro i randdeiliaid sut a phryd rydyn ni'n cydweithio.

## Asedau Digidol (Awdurdod Ymddygiad Ariannol/Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)

### Pwrpas

Parhau i gydweithio i wella ein dealltwriaeth gyffredin o agweddau defnyddwyr tuag at asedau digidol - gan gynnwys eu barn ynghylch y manteision a'r niwed posibl o ymgysylltu â'r cynnyrch dan sylw - o safbwynt rheoleiddio gwasanaethau ariannol a diogelu data.

### Gweithgareddau arfaethedig

- Ymgysylltu â'r diwydiant asedau crypto a rhanddeiliaid eraill â diddordeb ynghylch yr wybodaeth reoleiddiol a geir o ymchwil defnyddwyr ar y cyd ar asedau digidol.
- Gweithio gyda'n gilydd i gysoni canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y dyfodol ar ddiogelu data a thechnolegau cyfriflyfr gwasgaredig a gwaith yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar Gyllid Datganoledig (Defi) a Thoceniaeth.

## Cynigion Hyrwyddo Ariannol Ar-lein Anghyfreithlon (Awdurdod Ymddygiad Ariannol/Ofcom)

### Pwrpas

Archwilio'r rhyngweithio a sicrhau cysondeb rhwng codau ymarfer Ofcom yn dilyn Cydsyniad Brenhinol y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, a deddfwriaeth Cynigion Hyrwyddo Ariannol. Disgwylir i hyn gefnogi'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac Ofcom drwy helpu i sicrhau bod y rheoleiddio cyffredinol mor effeithiol â phosibl o ran lleihau nifer yr achosion o gynigion hyrwyddo ariannol ar-lein anghyfreithlon.

### Gweithgareddau arfaethedig

- Ymgysylltiad parhaus rhwng Ofcom a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wrth i Ofcom ddatblygu ei god ymarfer ar hysbysebion twyllodrus.
- Cynnal gweithdy ar ôl cyhoeddi Cais am Dystiolaeth Ofcom ar ddyletswyddau sy'n effeithio ar Wasanaethau wedi'u Categoreiddio.
- Archwilio'r rhyngweithio rhwng y gwaith hwn ac ymyriadau rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys gwaith Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i bennu pa ddeunyddiau allai gefnogi rhannu data er mwyn atal sgamiau a thwyll.

## Hyrwyddo Cystadleuaeth a Diogelu Data (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth/Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd)

### Pwrpas

Hyrwyddo amcanion sy'n gorgyffwrdd rhwng cyfundrefnau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac achub y blaen ar unrhyw densiynau posibl neu dybiedig, neu eu datrys, fel bod sylw'n cael ei roi i fuddiannau busnesau yn ogystal â defnyddwyr yn yr economi ddigidol.

### Gweithgareddau arfaethedig

- Parhau i werthuso cydymffurfiad Google â'i Ymrwymiadau i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar y Privacy Sandbox[1] i sicrhau bod yr adnoddau hynny'n sbarduno cystadleuaeth dda a chanlyniadau sy'n ystyriol o breifatrwydd mewn hysbysebion ar-lein.
- Cyhoeddi datganiad ar y cyd ar fodelau sylfaen deallusrwydd artiffisial i helpu i lywio eu datblygiad a'u defnydd mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cystadleuaeth dda, canlyniadau i ddefnyddwyr, ac yn diogelu data.
- Diweddaru ein datganiad ar y cyd ar gystadleuaeth a diogelu data yn 2021 i ystyried datblygiadau technegol, polisi a deddfwriaethol. Bydd hyn yn nodi ein dull gweithredu ar y cyd ar gyfer materion fel mynediad at ddata; rhannu data a rhyngweithredu; a dewis a rheolaeth defnyddwyr.
- Parhau i gydweithio a rhannu arbenigedd i gefnogi gweithgareddau goruchwylio ac ymchwilio Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, gan gydweithio mewn meysydd fel hysbysebu ar-lein, ecosystemau symudol, a'r cwmwl (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny).

## Rhannu'r datblygiadau diweddaraf ar faterion digidol trawsbynciol

### Pwrpas

Rhannu gwybodaeth am feysydd o ddiddordeb cyffredin ar draws cyrff rheoleiddio sy'n aelodau. Er bod allbynnau'r grwpiau hyn yn tueddu i fod yn rhai mewnol yn unig, maent hefyd yn rhoi cyfleoedd i dimau edrych ar y posibilrwydd o ymgymryd â phrosiectau mwy ffurfiol yn y dyfodol.

---

1 Ymchwiliad i newidiadau porwr 'Privacy Sandbox' Google, https://www.gov.uk/cma-cases/investigation-into-googles-privacy-sandbox-browser-changes

## Rhannu'r datblygiadau diweddaraf ar faterion digidol trawsbynciol
(parhad)

### Gweithgareddau arfaethedig

- Cryfhau ein cysylltiadau rheoleiddiol mewn pensaernïaeth dewis ar-lein, hysbysebion ar-lein a Thechnolegau Gwella Preifatrwydd.
- Parhau i archwilio meysydd newydd o ddiddordeb a meysydd sy'n gorgyffwrdd i ddod yn rhan o'n gwaith yn ystod y flwyddyn.

## Sganio'r Gorwel a Thechnoleg Ddatblygol

### Pwrpas

Ychwanegu at swyddogaethau sganio'r gorwel y pedwar corff rheoleiddio sy'n aelodau er mwyn galluogi pob un (yn unigol ac ar y cyd) i gynllunio'n well ar gyfer effaith arloesedd technolegol a thynnu sylw at risgiau a chyfleoedd rheoleiddio posibl i'r diwydiant ac i lunwyr polisïau. Drwy ragweld datblygiadau yn y dyfodol, bydd ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau yn fwy ystwyth i roi newidiadau rheoleiddio ar waith ac felly byddant yn sicrhau canlyniadau gwell i'r cyhoedd yn gyflymach.

### Gweithgareddau arfaethedig

- Cynnal a chyhoeddi ymchwil ar ddyfodol hunaniaeth ddigidol, sydd â'r potensial i effeithio ar gylchoedd gwaith rheoleiddio holl aelodau'r Fforwm.
- Cynnal a chyhoeddi ymchwil ar ffugiad dwfn ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Ailedrych ar bynciau sganio'r gorwel blaenorol a diweddaru ein canfyddiadau lle bo hynny'n briodol, gan ddechrau â'n hadroddiad ar gyfrifiadura cwantwm.

## Technolegau Goruchwylio

### Pwrpas

Cyfrannu at y gwaith o fabwysiadu deallusrwydd artiffisial mewn modd cyfrifol gan gyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm ac archwilio cyfleoedd i gydweithio wrth ddatblygu a rhoi technolegau ar waith i gynorthwyo swyddogaethau rheoleiddio.

## Technolegau Goruchwylio (parhad)

Mae gan dechnolegau o'r fath y potensial i wella cynhyrchiant ac effeithiolrwydd pob un o'n cyrff rheoleiddio sy'n aelodau.

### Gweithgareddau arfaethedig

- Cyfnewid gwybodaeth am ddefnydd cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o ddysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial, gan rannu arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd.
- Archwilio heriau a chyfleoedd posibl o ran sut y gellir defnyddio technoleg Model Iaith Mawr mewn ffordd gyfrifol i fynd i'r afael â materion rheoleiddio cymhleth.

## Sgiliau a Galluoedd

### Pwrpas

Parhau i feithrin galluoedd digidol cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm, gan gefnogi eu heffeithiolrwydd.

### Gweithgareddau arfaethedig

- Hyrwyddo cyfleoedd dysgu a datblygu ar y cyd ar gyfer staff ym mhob un o'n cyrff rheoleiddio sy'n aelodau.
- Ymgorffori llwybrau ar gyfer lleoliadau i raddedigion a secondiadau staff rhwng ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau.
- Cefnogi gwaith ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau i hyrwyddo recriwtio amrywiol i mewn i broffesiynau data a thechnoleg o fewn cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm.
- Helpu ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau i uwchsgilio i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran llywodraethu deallusrwydd artiffisial.

# Dull ymgysylltu'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Bydd y Fforwm yn parhau i fod yn flaenllaw mewn sgyrsiau am reoleiddio digidol yn y wlad hon ac yn rhyngwladol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid y tu allan i'r Fforwm, gan gynnwys diwydiant, a hynny drwy gymdeithasau masnach ac yn uniongyrchol â chwmnïau technoleg. Mae hyn yn hanfodol i wella dealltwriaeth o'r rhyngweithio rhwng cylchoedd gwaith rheoleiddio, casglu mewnbwn a gwybodaeth i lywio ein ffordd o feddwl, ac ehangu effaith a chanlyniadau prosiectau.

Mae cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm yn ymwybodol bod rhai cwmnïau mawr, sy'n chwarae rhan allweddol mewn marchnadoedd digidol, yn cael eu heffeithio gan eu holl gylchoedd gwaith rheoleiddio. Mae gan y Fforwm rôl hanfodol i'w chwarae o ran sicrhau bod y cwmnïau mawr hyn yn cael eu rheoleiddio mewn ffordd gydlynol, effeithiol ac effeithlon. Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn gwella'r cydweithio rhwng ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau yng nghyswllt y cwmnïau mawr hyn, gan rannu gwybodaeth a syniadau lle bo hynny'n briodol i gefnogi rheoleiddio effeithiol.

Bydd y Fforwm yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â'r llywodraeth a rhanddeiliaid seneddol, yn ogystal â meithrin cysylltiadau yn y gwledydd datganoledig. Bydd yn hwyluso'r gwaith o rannu profiad rheoleiddio digidol ymysg grŵp ehangach o reoleiddwyr, gan gynnwys parhau i gynnal ein cyfarfodydd o gwmpas y bwrdd bob chwarter i reoleiddwyr a fynychir gan 11 o gyrff rheoleiddio nad ydynt yn aelodau.

Eleni, byddwn yn rhoi hwb i'n hymdrechion ymgysylltu rhyngwladol, gan gynnwys drwy adeiladu ar y Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol. Mae'r rhwydwaith, a sefydlwyd yn 2023, yn gweithredu fel fforwm ar gyfer cyrff cydlynu, tebyg i'r Fforwm, sydd wedi cael eu sefydlu mewn awdurdodaethau eraill. Nod y rhwydwaith yw rhannu gwybodaeth am ddulliau cydlyniaeth a chydweithrediad rheoleiddiol.

# Effaith y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, a sut i ddod i gysylltiad

Lle bo'n bosibl, byddwn yn nodi effaith y Fforwm ac yn ei mesur. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy gasglu gwybodaeth a data drwy gydol y flwyddyn. Rydyn ni'n awyddus i gasglu gwybodaeth am effaith gwaith y Fforwm ar ddefnyddwyr, busnesau a'r gymdeithas ehangach, yn ogystal â deall y gwerth ehangach rydyn ni'n ei roi i gyrff rheoleiddio sy'n aelodau. Byddwn yn gwneud hyn drwy gasglu cyfeiriadau at y Fforwm mewn dogfennau cyhoeddus fel cyhoeddiadau busnes, llenyddiaeth academaidd a gwasg y DU, cofnodi graddfa ein hymgysylltiad â seneddwyr, cynrychiolwyr diwydiant ac eraill, ac arolygu timau rheoleiddio mewnol i ddeall gwerth gwaith y Fforwm iddyn nhw.

Byddwn hefyd yn manteisio ar beilot eleni o Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol y Fforwm er mwyn casglu adborth gan gwmnïau a gefnogir. Wrth gasglu'r adborth hwn yn uniongyrchol, byddwn yn dysgu mwy am y gwerth a ddarperir drwy ein cefnogaeth ac yn dechrau creu darlun tymor hwy o effaith yr Hyb er mwyn deall yn well sut rydyn ni'n helpu i siapio arloesedd ym marchnadoedd digidol y DU ac, yn fwy cyffredinol, yn gwella dealltwriaeth y Fforwm o farchnadoedd digidol.

-

Rydyn ni'n awyddus i glywed gennych am effaith gwaith y Fforwm:
cysylltwch â **drcf@ofcom.org.uk**

Rydyn ni hefyd yn awyddus i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â rhanddeiliaid am ein gwaith parhaus. Rydyn ni nawr yn cyhoeddi cylchlythyr y Fforwm bob dau fis: cysylltwch â'r cyfeiriad e-bost uchod i gael eich ychwanegu at y rhestr ddosbarthu.

Mae croeso i chi ddilyn ein **tudalen LinkedIn**, a gallwch fynd **i'n gwefan yma**.

# Ymateb i'r Cais am Fewnbwn

Ebrill 2024



DRCF

Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

CMA Competition & Markets Authority · Ofcom · ico. · FCA Financial Conduct Authority

# Cynnwys


**3** Crynodeb
**4** Cyflwyniad
**6** Deallusrwydd Artiffisial
**7** Data Clyfar a Chludadwyedd Data
**7** Hunaniaeth Ddigidol
**8** Diogelwch Ar-lein a Diogelu Data
**9** Rhannu Data i Atal Sgamiau a Thwyll
**9** Trydydd Partïon Critigol
**10** Rheoleiddio a Gorfodi
**11** Partneriaethau ac Ymgysylltu Posibl
**12** Adborth ar allbynnau blaenorol y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol
**12** Camau nesaf

# Crynodeb

Cafodd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol 26 o ymatebion i Gais am Fewnbwn Tachwedd 2023 i gyfrannu at ei Gynllun Gwaith 2024/25. Roedd yr ymatebion i'r Cais am Fewnbwn yn ategu ymgynghoriadau mewnol helaeth, gan gynnwys gyda byrddau'r pedwar corff rheoleiddio sy'n aelodau.

Datgelodd y Cais am Fewnbwn fod rhanddeiliaid yn gweld rhyng-gysylltiadau rhwng cyfrifoldebau cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm mewn nifer fawr o feysydd rheoleiddio digidol, gyda'r themâu cyffredin yn cynnwys deallusrwydd artiffisial, Data Clyfar a chludadwyedd data, hunaniaeth ddigidol (ID digidol), diogelwch ar-lein a diogelu data, rhannu data i atal sgamiau a thwyll, trydydd partïon critigol, a rheoleiddio a gorfodi. Hoffai ymatebwyr i'r Cais am Fewnbwn weld cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm yn cydweithio i ddatblygu technolegau goruchwylio, mynd ar drywydd partneriaethau gyda rheoleiddwyr eraill yn ddomestig, ac ymgysylltu â rheoleiddwyr dramor.

Mewn rhai meysydd, mae'r Fforwm yn bwrw ymlaen â gwaith perthnasol, neu bydd yn gwneud hynny yn y flwyddyn i ddod. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r meysydd hynny ac yn egluro pam nad yw'n mynd ar drywydd rhai eraill ar hyn o bryd.

Mae nifer o'n prosiectau yn cynnwys ymgysylltu â diwydiant, defnyddwyr a rhanddeiliaid ehangach ar hyn o bryd. Wrth i reoleiddio digidol ddatblygu, rydyn ni'n awyddus i barhau i wrando ar safbwyntiau o bob sector, ac i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â rhanddeiliaid am ein gwaith parhaus.

Rydyn ni nawr yn cyhoeddi cylchlythyr y Fforwm bob dau fis: cysylltwch â **drcf@ofcom.org.uk** i gael eich ychwanegu at y rhestr ddosbarthu.

# Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd y Fforwm Gais am Fewnbwn a oedd yn gofyn am safbwyntiau ynghylch lle mae rhyng-gysylltiadau mewn rheoleiddio digidol yn cael eu gweld a pha gamau y gallai'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm eu cymryd yng ngoleuni'r rheiny. Roedd yr ymatebion i'r Cais am Fewnbwn yn ategu ymgynghoriadau mewnol helaeth ynghylch gweithgareddau'r Fforwm yn y dyfodol, gan gynnwys trafodaethau gyda byrddau'r pedwar corff rheoleiddio sy'n aelodau.


Gofynnon ni'r cwestiynau canlynol i randdeiliaid:

1. Beth yw'r meysydd pwysicaf o ran technoleg neu reoleiddio digidol lle rydych chi'n gweld rhyng-gysylltiadau rhwng cyfrifoldebau a gwaith rheoleiddwyr y Fforwm?

2. Pa gamau gweithredu penodol ar y cyd gan gyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm fyddech chi'n hoffi eu gweld? Pa brosesau, canllawiau neu allbynnau eraill a rennir fyddai'n ddefnyddiol yn eich barn chi?

Cawsom fewnbwn gan 26 o sefydliadau, a hynny'n ysgrifenedig a thrwy ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid. Cawsom gyfraniadau gan y sector preifat (14 ymateb), y llywodraeth (4 ymateb), cymdeithas sifil (4 ymateb) a chyrff masnach (4 ymateb).

## Dadansoddiad o'r ymatebwyr i'r Cais am Fewnbwn




Sylwer: Nid yw'r canrannau uchod yn gwneud cyfanswm o 100%.

Oherwydd talgrynnu. Nodwyd themâu cyffredin ar draws yr ymatebion. Mae'r 'cwmwl geiriau' isod yn dangos rhai ohonynt.




Sylwer: Mae maint y gair yn y llun yn cyfateb i ba mor aml y cafodd ei grybwyll yn yr ymatebion a gawsom.

# Deallusrwydd Artiffisial

Llywodraethu deallusrwydd artiffisial oedd y mater a godwyd fwyaf gan ymatebwyr. Awgrymwyd y gallem gydlynu'r gwaith o weithredu egwyddorion deallusrwydd artiffisial yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg a nodir yn ei Phapur Gwyn "A Pro-Innovation Approach to AI Regulation",[1] archwilio goblygiadau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a modelau sylfaen a datblygu dull cyffredin o archwilio algorithmig.

Roedd pum ymatebydd wedi ein hannog i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gydlynu dulliau gweithredu rheoleiddwyr sy'n aelodau mewn perthynas â'r pum egwyddor deallusrwydd artiffisial traws-sector. Gofynnodd ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch sut mae'r egwyddorion deallusrwydd artiffisial yn cael eu dehongli a'u rhoi ar waith gan reoleiddwyr. Roeddent yn cyfeirio at egwyddorion tegwch a thryloywder ac eglurdeb priodol fel meysydd ffocws y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt.

Roedd tri ymatebydd wedi dweud y byddai deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a modelau sylfaen yn feysydd a fyddai'n elwa yn sgil ymchwilio ymhellach. Dywedodd ymatebwyr mai ychydig iawn sy'n hysbys am y technolegau hyn, gydag un yn nodi'r risg o farchnad ddwys iawn. Tynnodd ymatebydd arall sylw at y ffaith bod potensial i ddeallusrwydd artiffisial greu gwybodaeth ffug sy'n anoddach ei chanfod, gan nodi y gallai hyn arwain at golli ymddiriedaeth mewn marchnadoedd. Dywedodd dau ymatebydd fod ymchwil penodol i ddefnyddwyr i'r defnydd o raglenni deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a modelau sylfaen yn ddiffygiol ar hyn o bryd, gydag un ymatebydd yn mynegi pryder am y modd mae defnyddwyr yn troi at raglenni o'r fath i gael cyngor ariannol. Awgrymodd un ymatebydd y gallai'r Fforwm ddatblygu dull cyffredin traws-sector o archwilio algorithmig. Nododd y dylai unrhyw ddefnydd gan reoleiddwyr o'r farchnad archwilio trydydd partïon gael ei ystyried yn ofalus, a chroesewir rhagor o ymchwil i'r maes hwn.

## Ymateb y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd cydlynu traws-sector wrth reoleiddio deallusrwydd artiffisial. Bydd yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol yn ein Cynllun Gwaith ar gyfer 2024/25 ac yn y tymor hwy. Byddwn yn parhau i hyrwyddo deallusrwydd artiffisial cyfrifol gan gynnwys nodi goblygiadau posibl deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, gwella ein dealltwriaeth ni (a dealltwriaeth cwmnïau rheoledig) o'r farchnad sicrwydd algorithmig trydydd parti a chydweithio ar weithredu fframwaith deallusrwydd artiffisial y Llywodraeth. Byddwn hefyd yn darparu cyngor anffurfiol fel rhan o wasanaeth peilot Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol y Fforwm, a fydd yn ein helpu i ddeall goblygiadau traws-reoleiddio deallusrwydd artiffisial. Bydd hyn yn arwain ein gwaith ehangach sy'n ymwneud â deallusrwydd artiffisial. Gweler tudalennau 9-10 o'r Cynllun Gwaith am ragor o fanylion.

---

1 Dull gweithredu o blaid arloesi yng nghyswllt rheoleiddio deallusrwydd artiffisial, https://www.gov.uk/government/publications/ai-regulation-a-pro-innovation-approach/white-paper

# Data Clyfar a Chludadwyedd Data

Roedd rhai ymatebwyr yn cynnig y gallai'r Fforwm chwarae rhan yn y gwaith o gysoni cynlluniau Data Clyfar posibl yn y dyfodol ac, yn fwy cyffredinol, annog cludadwyedd data rhwng sectorau.

Awgrymodd ymatebwyr hefyd y gallai'r Fforwm gydlynu datganiad ar y cyd rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i nodi safbwyntiau ynghylch cludadwyedd data yn y DU.

## Ymateb y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Rydyn ni'n cydnabod y potensial i reoleiddwyr chwarae rhan yn y gwaith o helpu i gydlynu darpariaethau Data Clyfar yn y dyfodol os bydd y Llywodraeth yn rhoi cynlluniau ar waith o dan bwerau newydd a gynigir yn y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol.

Un o nodau'r Cyngor Data Clyfar, a sefydlwyd gan yr Adran Busnes a Masnach ym mis Ebrill 2023, yw hybu cydweithio a rhannu gwybodaeth.[2] Er bod y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol gerbron y Senedd, a gan fod yr holl gyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm yn aelodau o'r Cyngor Data Clyfar, nid ydyn ni'n gweld gwerth i'r Fforwm gynnal gwaith ochr yn ochr â'r Cyngor Data Clyfar eleni, o ystyried risgiau cynamseroldeb a dyblygu. Byddwn yn cadw llygad ar y datblygiadau diweddaraf ac yn ailedrych ar y pwnc hwn fel rhan o gynllunio gwaith y dyfodol.

Yn y cyfamser, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn cyhoeddi datganiad ar eu dull o rannu data a rhyngweithredu fel rhan o'r prosiect Cystadleuaeth a Diogelu Data a ddisgrifir ar dudalen 12 y Cynllun Gwaith.

# Hunaniaeth Ddigidol

Roedd chwe ymatebydd wedi nodi bod ID digidol yn faes allweddol o ryng-gysylltiadau rheoleiddiol. Gofynnodd nifer o ymatebwyr sut y bydd Deddf Diogelwch Ar-lein Ofcom yn rhyngweithio â darnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â fframweithiau ID digidol neu ddilysu oedran fel y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol yr UE a Fframwaith Ymddiried Nodweddion a Hunaniaeth Ddigidol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg. Roedd ymatebwyr yn cynnig bod y Fforwm yn symleiddio'r broses o gyflwyno fframweithiau ID digidol mewn gwahanol sectorau er mwyn cyfrannu at fwy o sicrwydd rheoleiddiol a lleihau'r risg o ddyblygu. Roedd ymatebwyr yn cynghori bod y Fforwm yn ymgysylltu â sefydliadau allanol sydd â phrofiad o ID digidol.

---

2 Y Cyngor Data Clyfar newydd i hybu arbedion ym miliau'r cartref, https://www.gov.uk/government/news/new-smart-data-council-to-drive-forward-savings-for-household-bills

## Ymateb y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Ar hyn o bryd mae Prosiect Sganio'r Gorwel y Fforwm yn cynnal ymchwil i dirwedd ID digidol y dyfodol, a bydd hyn yn parhau yn ystod 2024/25. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ystyried datblygiadau fel ID digidol datganoledig, hunaniaeth o fewn fframweithiau data agored, ac enghreifftiau rhyngwladol o ddefnyddio ID digidol. Pan ddaw'r prosiect hwnnw i ben, bydd y Fforwm yn ystyried y rhagolygon ar gyfer cydweithio ar ID digidol yn y dyfodol.

Ochr yn ochr â hyn, o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, mae gan Ofcom ddyletswydd i argymell bod gwasanaethau ar-lein penodol yn defnyddio 'sicrwydd oedran effeithiol iawn' i atal plant rhag dod ar draws mathau penodol o gynnwys, ac i ddarparu arweiniad i wasanaethau ynghylch dilysu manylion adnabod defnyddwyr. Mae Ofcom yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, wrth iddo ddatblygu ei godau ymarfer a chanllawiau drafft.[3]

# Diogelwch Ar-lein a Diogelu Data

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at y tensiwn tybiedig rhwng diogelwch ar-lein a diogelu data, yn enwedig o ran yr heriau canfyddedig i roi'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ar waith heb dorri cyfraith diogelu data. Awgrymodd un ymatebydd y gallai'r Fforwm ddarparu arweiniad ar sut y gellir rhoi'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ar waith yn llwyddiannus gan gyfrif hefyd am fframweithiau rheoleiddio eraill.

Roedd agweddau eraill ar ddiogelwch ar-lein yn cynnwys cynnig i ehangu datganiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar bensaernïaeth dewis ar-lein[4] drwy ychwanegu safbwyntiau gan y pedwar corff rheoleiddio sy'n aelodau.

Galwodd nifer o ymatebwyr ar y Fforwm i symleiddio dulliau rheoleiddio ar gyfer amgryptio o un pen i'r llall, gan dynnu sylw at y rhyngweithio rhwng preifatrwydd a diogelwch ar-lein. Gofynnodd tri ymatebydd i ni gydweithio wrth ystyried goblygiadau technolegau gwella preifatrwydd, gan gydnabod y potensial i'r dechnoleg ddarparu atebion ar gyfer y tensiynau rhwng preifatrwydd ac amgryptio.

3 Daeth ymgynghoriad Ofcom ynghylch y Canllawiau ar sicrhau oedran a dyletswyddau Rhan 5 eraill ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n cyhoeddi cynnwys pornograffig ar wasanaethau ar-lein i ben ar 5 Mawrth. Yn y Gwanwyn, bydd Ofcom yn dechrau ymgynghori ar y codau ymarfer a'r canllawiau drafft sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Ddechrau 2025, bydd Ofcom yn ymgynghori ar y dyletswyddau ar gyfer gwasanaethau wedi'u categoreiddio, gan gynnwys y dyletswyddau Rhan 4 ar gyfer gwasanaethau Categori 1 i gynnig yr opsiwn i bob defnyddiwr gwasanaeth sy'n oedolyn gael dilysu pwy ydynt.

4 Harmful design in digital markets, https://www.drcf.org.uk/__data/assets/pdf_file/0024/266226/Harmful-Design-in-Digital-Markets-ICO-CMA-joint-position-paper.pdf

### Ymateb y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Bydd prosiect y Fforwm, Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddiogelwch ar-lein a diogelu data yn parhau yn 2024/25. Gweler tudalen 10 o'r Cynllun Gwaith am fanylion.

Yn 2022/23, roedd Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi trefnu ffrwd waith bwrpasol ar amgryptio o un pen i'r llall fel rhan o brosiect diogelwch ar-lein a diogelu data ehangach y Fforwm. Ar hyn o bryd, mae Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn parhau i gydweithio ar allbynnau rheoleiddio penodol sy'n ymwneud ag amgryptio o un pen i'r llall ac maent yn cynnal rhwydwaith rhannu gwybodaeth sefydledig sydd wedi ymrwymo i drafod materion traws-sector sy'n ymwneud â thechnolegau gwella preifatrwydd. Gweler tudalen 11 o'r Cynllun Gwaith.

# Rhannu Data i Atal Sgamiau a Thwyll

Gofynnodd pedwar ymatebydd am ganllawiau a rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr ynghylch rhannu data er mwyn atal sgamiau a thwyll, yn enwedig er mwyn rhoi eglurder i'r diwydiant ynghylch cyfreithlondeb rhannu data at y diben hwn.

### Ymateb y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Rydyn ni'n deall pwysigrwydd eglurder rheoleiddiol o ran rhannu data er mwyn atal sgamiau a thwyll. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn edrych ar gyngor posibl ar sut y gall cyfraith diogelu data gefnogi rhannu data er mwyn atal sgamiau a thwyll ar draws sectorau digidol (e.e. cyllid, cyfryngau cymdeithasol, telegyfathrebiadau), gan gydweithio â chyrff rheoleiddio eraill sy'n aelodau o'r Fforwm yn ogystal â rhanddeiliaid ehangach y rheoleiddwyr a'r diwydiant yn ystod y gwaith o'i ddatblygu.

# Trydydd Partïon Critigol

Awgrymodd dau ymatebydd y dylai'r Fforwm gysoni dulliau gweithredu cyrff rheoleiddio sy'n aelodau i nodi a rheoli'r risgiau posibl a allai godi yn sgil methiant neu darfu ar Drydydd Partïon Critigol. Nodwyd y gallai'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol rannu'r gwersi a ddysgwyd yn y maes hwn i'w defnyddio ar draws sectorau.

### Ymateb y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Mae aelodau'r Fforwm wedi rhannu gwybodaeth yn flaenorol am eu swyddogaethau rheoleiddiol sy'n berthnasol i seiberddiogelwch a seibergadernid, gan gynnwys risgiau Trydydd Partïon Critigol. Yn dilyn canlyniad Ymchwil i Farchnad Gwasanaethau Cwmwl yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd,[5] bydd y pwnc hwn yn cael ei ystyried unwaith eto fel rhan o broses cynllunio gwaith tymor hir y Fforwm. Yn y cyfamser, bydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn parhau i ymgynghori â chyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm ynghylch dynodiadau perthnasol Trydydd Partïon Critigol wrth iddynt ddigwydd.

## Rheoleiddio a Gorfodi

Tynnodd un ymatebydd sylw at bwysigrwydd datblygu Rheoliad y Gall Peiriant ei Ddarllen ar y cyd i'w ddefnyddio mewn gwaith gorfodi a sicrhau bod gan ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau arbenigedd priodol i weithio yn y dirwedd rheoleiddio digidol sy'n newid. Galwodd rhywun arall am geisiadau ar y cyd am ddata i ysgafnhau'r baich rheoleiddio ar gwmnïau.

### Ymateb y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Mae gennym brosiect sy'n canolbwyntio ar dechnolegau goruchwylio, ac un arall sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod gan gyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm y sgiliau a'r gallu priodol i reoleiddio'r sector digidol yn effeithiol. Mae'r prosiectau hyn yn parhau, gyda ffocws cychwynnol ar ble gall cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm ddefnyddio technoleg wrth gyflawni eu swyddogaethau. Ceir rhagor o fanylion ar dudalen 13 a 14 y Cynllun Gwaith. Gall y Fforwm hefyd gydlynu mewn perthynas â cheisiadau am wybodaeth os yw'n bosibl ac yn ymarferol o fewn y fframweithiau cyfreithiol perthnasol.

5 Cloud services market investigation, https://www.gov.uk/cma-cases/cloud-services-market-investigation

# Partneriaethau ac Ymgysylltu Posibl

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm fabwysiadu dull cydgysylltiedig o ymgysylltu â chwmnïau allweddol mewn marchnadoedd digidol: er enghraifft, gallai'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol gydweithio ar yr effaith ar gystadleuaeth yn sgil ehangiad cwmnïau technoleg mawr i farchnadoedd ariannol.

Anogodd yr ymatebwyr gydweithrediad neu bartneriaeth â gwahanol gyrff rheoleiddio a sefydliadau nad oeddent yn aelodau o'r Fforwm. Awgrymodd dau ymatebydd ein bod yn gweithio gyda'r Rheoleiddiwr Systemau Talu ar brosiectau sy'n ymwneud â mynd i'r afael â thwyll digidol. Roedd ymatebydd arall yn awgrymu ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol oherwydd ei arbenigedd cyfreithiol ar degwch algorithmig. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cefnogi ymgysylltiad parhaus rhwng aelodau'r Fforwm a'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg ar adrodd ynghylch digwyddiadau deallusrwydd artiffisial, dulliau o ymdrin ag ID digidol ac, yn ehangach, i helpu i gefnogi'r gwaith o weithredu fframwaith rheoleiddio deallusrwydd artiffisial y DU.

Roedd pedwar ymatebydd yn cefnogi ymgysylltiad y Fforwm â rheoleiddwyr rhyngwladol, sydd oll wedi mynegi pryder am yr anawsterau y mae busnesau yn y DU yn eu hwynebu wrth ddelio â nifer o gyfundrefnau rheoleiddio deallusrwydd artiffisial dramor. Awgrymodd un ymatebydd y gallem nodi a chydlynu gyda chyrff cydlynu rheoleiddiol tebyg yn rhyngwladol.

## Ymateb y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Rydyn ni'n gwerthfawrogi ymgysylltiad a mewnbwn gan bartïon allanol, yn y wlad hon ac yn rhyngwladol. Rydyn ni wedi ymrwymo i gydweithio mewn perthynas â chwmnïau mawr sy'n chwarae rhan allweddol mewn marchnadoedd digidol. Y llynedd, fe wnaethon ni ymgysylltu â phartneriaid allanol ar waith prosiect deallusrwydd artiffisial, a byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â chyrff rheoleiddio nad ydynt yn aelodau i bennu gwaith ar y cyd a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar amcanion rheoleiddio cyfunol y cyfranogwyr. Rydyn ni wedi sefydlu'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar Gydweithredu ar Reoleiddio Digidol a byddwn yn parhau i ymgysylltu â chymheiriaid rhyngwladol yn y flwyddyn i ddod: gweler tudalen 15 y Cynllun Gwaith am ragor o fanylion.

# Adborth ar allbynnau blaenorol y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Gwnaethon ni groesawu adborth o'r Cais am Fewnbwn ar allbynnau'r Fforwm hyd yma, yn ogystal â meysydd i'w datblygu yn y dyfodol. Tynnodd ymatebwyr sylw at werth darnau o waith unigol y Fforwm. Er enghraifft, nodwyd bod papur safbwynt ar y cyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar bensaernïaeth dewis ar-lein yn darparu gwerth sylweddol drwy ei gynnwys a'r arddull cyhoeddi. Gofynnodd tri ymatebydd am wybodaeth gliriach a mwy cryno am weithgareddau'r Fforwm yn ystod y flwyddyn.

Tynnodd ymatebwyr sylw at waith cyrff rheoleiddio unigol sy'n aelodau, gan dynnu sylw at ddarnau o waith a oedd yn llwyddiannau nodedig ac a allai helpu i lywio gwaith y Fforwm yn y dyfodol. Roedd gwaith yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus i nodi a chyfathrebu risg Trydydd Partïon Critigol yn fater nodedig a gafodd ei grybwyll. Cafodd Hyb Busnesau Bach Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ei henwi hefyd fel enghraifft o arfer gorau i lywio lansiad y Fforwm o'r Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol.

Rydyn ni wedi ystyried yr adborth hwn yn y Cynllun Gwaith drwy roi mwy o eglurder ynghylch pwrpas a gweithgareddau pob un o'n prosiectau. Byddwn yn parhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith drwy gydol y flwyddyn, a hynny ar ein gwefan a thrwy bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol.

Rydyn ni nawr yn cyhoeddi cylchlythyr y Fforwm bob dau fis: cysylltwch â **drcf@ofcom.org.uk** i gael eich ychwanegu at y rhestr ddosbarthu.

# Y camau nesaf

Mae'r ymatebion i'r Cais am Fewnbwn, sy'n cael eu crynhoi yn y ddogfen hon, wedi cyfrannu at Gynllun Gwaith y Fforwm ar gyfer 2024/25.

Drwy gydol y flwyddyn, ac yn unol â gweledigaeth tair blynedd y Fforwm, byddwn yn parhau i gasglu syniadau ar gyfer ffocws ein gwaith yn y dyfodol drwy ein hymgysylltiad yn y wlad hon ac yn rhyngwladol ac yn fwy penodol drwy'r ymholiadau a gawn drwy beilot yr Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol. Ceir rhagor o fanylion ar dudalen 15 y Cynllun Gwaith.

Rydyn ni'n croesawu ymgysylltiad pellach ag ymatebwyr ac unrhyw randdeiliaid eraill sydd â diddordeb yn ein gwaith. Ar gyfer ceisiadau am ymgysylltu, anfonwch neges e-bost at **drcf@ofcom.org.uk**.

©Hawlfraint y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol Cedwir Pob Hawl